# HELP LLAW I GAROLWYR

"Does yna ddim rheolau mewn Plygain," meddai rhai.
Digon teg - does dim rhestr o reolau yn unlle, ac nid oes unrhyw bwyllgor neu gorff canolog yn 'plismona' unrhyw reol. Ond a yw hynny yn golygu fod rhyddid i ganu unrhyw beth? Dim o gwbl!

Holl bwrpas Plygain yw rhoi llwyfan i'r carolau traddodiadol - y carolau hynny na chaiff eu clywed yn unlle arall. Mae anwybyddu hyn yn tanseilio egwyddor mwyaf sylfaenol y Plygain.

## FELLY, BETH YN UNION YW CAROL BLYGAIN?

Os nad ydych yn siwr, mae'r ateb yn syml: ewch i chwilio yn y casgliadau o garolau plygain a gyhoeddwyd yn y cyfnod diweddar. Gweler *Dewis Carolau.*

Mae un dosbarth o garolau traddodiadol yn hawdd eu hadnabod: y carolau hynaf sydd gennym. Mae'r rhain i gyd i bob pwrpas wedi eu gosod ar fesur sydd ag enw arbennig yn perthyn iddo: mesurau megis *Difyrrwch Gwŷr Caernarfon*, *Gwêl yr Adeilad*, *Ffarwel Ned Puw*, *Y Bachgen Main*, *Mentra Gwen*, *Llygoden yn y Felin*, *Y Ceiliog Gwyn*, *Y Tri Thrawiad.*

Daw'r enghreifftiau cynharaf o'r *Tri Thrawiad* yng ngwaith Rhys Prichard, 'Ficer Prichard', a anwyd yn 1579.

Trwy gydol y canrifoedd dilynol, hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, arfer y beirdd wrth gyflwyno eu cerddi oedd dweud "Carol ar fesur *Diniweidrwydd*", "Carol ar fesur *Ffarwel Ned Puw*" neu unrhyw un o'r mesurau eraill. Byddai'r cerddi yn aml yn cynnwys 12 neu hyd yn oed 16 llinell ac yn llawn o gyfeiriadau Beiblaidd, o'r Hen Destament drwodd at yr Atgyfodiad. Roedd y beirdd yn llawer mwy hyddysg yn eu Beibl nad ydyn ni heddiw!

Daeth yr arfer o gyfansoddi carolau ar yr

## DEWIS CAROLAU

Erbyn hyn nid oes prinder o garolau plygain wedi eu cyhoeddi. Dyma'r cyfrolau sydd mewn print:

Carolau Plygain, gol. Geraint Vaughan Jones/ Bethan Scotford. Y Lolfa

Mwy o Garolau Plygain gol. Geraint Vaughan Jones/ Bethan Scotford. Y Lolfa

Seiniwn Hosanna, gol Arfon Gwilym/ Sioned Webb, plygain.org

Mae'r ddau isod allan o brint ond gellir dadlwytho'r cyntaf o wefan Cwmni Gwynn ac mae'r ail ar gael mewn unrhyw lyfrgell:

Hen Garolau Cymru. Cwmni Gwynn

Yn Dyrfa Weddus, Rhiannon Ifans. Cymdeithas Lyfrau Ceredigion

Cryn 150 o garolau i gyd, felly digon o ddewis!

Os nad yw'r 150 o garolau hynny hyd yn oed yn gwneud y tro, yna chwiliwch drwy restr Hedd ap Emlyn ar wefan plygain.org yn adran Chwilio am Garolau: rhestr o 150 o gyhoeddiadau o'r gorffennol sy'n cynnwys carolau plygain (weithiau y gerddoriaeth yn ogystal â'r geiriau).

hen fesurau uchod i ben, a daeth mesurau symlach i gymryd eu lle: carolau megis 'Daeth Nadolig' (ar alaw *Deio Bach*; awdur y geiriau yn anhysbys); carolau'r Parch Owen Jones, Pentrefoelas (a aned yn 1825) a charolau Thomas Cilwern Davies, Llanymawddwy (a aned yn 1858).

*ENGHRAIFFT O HEN GAROL BLYGAIN*
*Carol Huw Tegai (g.1825) ar fesur Gwêl yr Adeilad.*

Rhown gân i Dduw gogoned am agor drws ymwared
i ni rai meirwon.
O'i gariad tra rhagorol, fe roes addewid rasol
i druenusion.
Yn awr y gwenai in ei gwawr,
Pan gaed Gwaredydd ar foreddydd
O wreiddyn Dafydd, sef Llywydd nef a llawr,
Dyn isel yn y preseb, Duw tragwyddoldeb mawr.
Y llun y ganwyd Iesu gun
Yn ddyn dibechod i wneuthur cymod
O wele'n dyfod o hanfod Duw ei hun,

*ENGHRAIFFT O GAROL BLYGAIN DDIWEDDARACH*
*Awdur anhysbys, ar yr alaw Deio Bach*

Daeth Nadolig fel arferol,
Daeth fel yn y dyddiau gynt
Gyda'i eira, gyda'i oerni,
Gyda'i rew a'i ruol wynt.
Yn lle dail i drwsio'r goedwig,
Gwisgir hi â hugan gwyn,
Ac mae miwsig pob aderyn
Wedi darfod yn y glyn.

## PA GAROLAU SY DDIM YN GAROLAU PLYGAIN?

- Addasiad neu gyfieithiad Cymraeg o gân bop Saesneg
- Carolau 'poblogaidd' rhyngwladol megis *Dawel Nos, Ganol Gaeaf Noethlwm, Mae'r Nos yn Ddu, I Orwedd Mewn Preseb, O Dawel Ddinas Bethlehem, Draw yn Ninas Dafydd Frenin* ac ati.
- Carolau Cymraeg cymharol ddiweddar fel *Mae'r Nos yn Fwyn (Vilda)*, a *Hwiangerdd Mair (Suai'r Gwynt)*
- *Nid yw gosod geiriau Nadoligaidd ar emyn-dôn SATB yn ei gwneud yn garol Blygain. (Mae'r traddodiad canu emynau mewn gwirionedd yn wahanol i draddodiad y canu Plygain)*

## *CANEUON FFYDD* A LLYFRAU EMYNAU ERAILL

**Nid mewn llyfrau emynau (neu hen *Ddetholiadau*) y mae'r lle gorau i ganfod carolau plygain!**

Allan o tua 45 o garolau a geir yn *Caneuon Ffydd*, dim ond wyth ohonynt sy'n garolau Cymraeg traddodiadol:

- carol Jane Ellis *O Deued Pob Cristion*
- carol Sion Ebrill *Roedd yn y Wlad Honno*
- carol John Edwards *Wele'n Gwawrio*
- carol Dafydd Jones *Wele Cawsom y Meseia*
- carol Rhys Prichard *Rhown Foliant o'r Mwyaf*
- carol Rhys Prichard, *Awn i Fethle'm*
- carol Bardd Du Môn, *Y Bachgen Main*
- carol Eos Iâl, *Ar Gyfer Heddiw'r Bore*

*(Sylwer: Mae'r pedai carol gyntaf uchod yn garolau a ddefnyddir yn aml ar gyfer y gynulleidfa).*

Carolau mwy cyfoes yw gweddill y 45, rhai ohonynt yn garolau Cymraeg gwreiddiol, a chyfran dda ohonynt yn gyfieithiadau o ieithoedd eraill. Carolau ardderchog i gyd, ond nid carolau plygain ydyn nhw.

# FFURFIO PARTI

Mewn Plygain, gellir canu fel unawdydd, mewn deuawd, triawd, pedwarawd neu barti bychan. Nid yw Côr yn addas – rhywbeth sy'n perthyn i fyd y cyngerdd a'r eisteddfod yw côr.

*[Y cwestiwn sy'n dilyn yw beth yw'r gwahaniaeth rhwng parti mawr a chôr bach?! Does dim ateb pendant – ond dylai'r egwyddor fod yn glir.]*

Hyd at yr 1970au a'r 80au, y triawd oedd y parti mwyaf cyffredin. Gyda phartïon mwy na hynny, y trefniant tri llais a glywid ran amlaf.

Tybed ai dyma'r prif wahaniaeth rhwng carol blygain ac emyn? Gwrandewch ar bedwarawd yn canu emyn SATB, tebyg i'r hyn a glywir ar raglenni fel *Dechrau Canu*, a chymharwch hynny gyda thriawd plygain – fe ddylech glywed y gwahaniaeth yn syth.

Os mai parti cymysg o leisiau dynion a merched sydd gennych, cofiwch fod modd creu parti tri llais yn hawdd: gall yr altos ganu llinell y tenor.

Rhaid pwysleisio, os ydych am fentro creu eich "trefniant" eich hun, mai cadw at harmonïau hollol syml sydd ei angen; dim byd "ffansi"!

# A OES FFORDD ARBENNIG O GANU CAROL BLYGAIN?

Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno fod canu plygain yn "swnio'n wahanol". Sut mae creu y sain unigryw hwnnw? Efallai mai'r ffordd orau yw gwrando ar recordiadau o'r gorffennol – yn enwedig recordiad Amgueddfa Sain Ffagan o 1977.

Yr hyn sydd ei angen yw canu naturiol, diffuant a dirodres – yn union fel datganiad cân werin ar ei orau.

Weithiau clywir y sylw hwn: "mae nhw'n swnio fel tasen nhw mewn cystadleuaeth".

Yr hyn a olygir, mae'n debyg, yw:

- gormod o sylw i'r 'commas' a hyd yn oed gosod 'commas' i mewn lle nad oes angen;
- pwyslais ar 'frawddegu llyfn' (rhywbeth sy'n cael ei ganmol yn fawr mewn eisteddfodau!)
- gormod o sylw i'r 'deinamics' (canu tawel/cryf) yn hytrach na gadael i'r geiriau siarad drostynt eu hunain.

## A OES ANGEN CANU'R HOLL BENILLION?

Nagoes! Efallai wir fod llawer mwy o benillion yn cael eu canu yn yr oes a fu na heddiw. Y rheswm syml am hynny oedd fod pobl yn fwy parod i eistedd mewn capel neu eglwys am oriau lawer. Wedi'r cyfan, ychydig iawn o adloniant oedd ar gael i bobl yn gyffredinol o'i gymharu â heddiw.

Faint sy'n rhesymol i'w canu? Dim ond chi all benderfynu – ond efallai y dylech ystyried pa mor hir y gallai'r gwasanaeth gymryd petai pob parti yn canu 10 neu fwy o benillion!

Sylwer:

Nid oes dim i rwystro neb rhag creu carol newydd.

Fel arfer, y ffordd orau yw gosod geiriau newydd ar hen alaw neu osod alaw newydd ar hen eiriau – gan ofalu cadw at naws ac arddull y carolau traddodiadol.